Disclosure & Barring Service

# Cyfarwyddyd i'r cydlofnodydd ar gwblhau'r ffurflen gais DBS

## Rheolau cyffredinol

- Sicrhewch fod y partïon i gyd yn ymwybodol o'r diweddariadau o ran cwestiwn e55 a'r hysbysiad prosesu teg (gweler Cyfarwyddyd i'r ymgeisydd i gwblhau ffurflen gais DBS).
- Peidiwch â chyflwyno llungopïau o'r ffurflen gais, byddant yn cael eu dychwelyd.
- Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau hunaniaeth gyda'r cais.
- Llenwch adrannau w, x ac y yn unig.
- Defnyddiwch **INC DU** wrth gwblhau'r ffurflen hon a rhoi un nod yn unig ym mhob blwch.
- Defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU** wrth gwblhau'r ffurflen hon.
- Mae'r holl rannau mewn **GLAS a'u meysydd cysylltiedig** yn ofynnol a rhaid eu cwblhau.
- Os nad yw maes yn berthnasol i chi, dylech ei **adael yn wag. Peidiwch â rhoi Amh** nac unrhyw amrywiad ar hyn.
- Os ydych chi'n gwneud camgymeriad, rhowch linell trwyddo a'i gywiro ar yr ochr dde. **PEIDIWCH** â defnyddio hylif cywiro.
- Sicrhewch eich bod yn rhoi'ch holl gyfeiriadau ble bu'r ymgeisydd yn byw yn y **pum mlynedd** ddiwethaf, yn cynnwys y wlad a dyddiadau ar gyfer unrhyw gyfeiriadau tramor.
- Os nad oes digon o le ar y ffurflen gais, dylai'r ymgeisydd lawrlwytho a chwblhau dalen barhad o


**www.gov.uk/government/publications/dbs-continuation-sheet.**

- Os ydych chi wedi dewis mwy nag un i'r opsiynau **IE/NA** trwy gamgymeriad, rhowch groes yn y blwch cywiro a'i gylchu.
- Cadwch eich llofnodion yn y blwch a ddarparwyd.
- Ni ddylech roi stampiau na sticeri ar y ffurflen.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â'r broses ymgeisio neu ar gwblhau'r ffurflen gais, cysylltwch â Chanolfan Alwadau Gwasanaethau Cwsmeriaid y DBS ar **03000 200 191.**

## Adran w – gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd

**Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau hunaniaeth gyda'r cais**

- Rhaid i wirydd tystiolaeth hunaniaeth cymeradwy y Corff Cofrestredig wirio hunaniaeth yr ymgeisydd yn drylwyr o restr o ddogfennau cymeradwy. Mae hyn yn **allweddol i'r broses ymgeisio** a chywirdeb y gwiriadau hunaniaeth a gyflawnir gan y DBS, felly sicrhewch eich bod yn cymryd gofal mawr trwy gydol y broses hon.
- Dim ond **dogfennau gwreiddiol** ddylai'r ymgeisydd ddarparu. **Peidiwch** â derbyn llungopïau.
- Gellir derbyn dogfennau mewn enw blaenorol, ond dim ond ble gall yr ymgeisydd ddarparu dogfennaeth yn cefnogi newid enw.
- Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r detholiad o ddogfennau y gellir eu derbyn fel tystiolaeth o hunaniaeth ymgeisydd, ewch i'r adran cyhoeddiadau ar wefan y DBS **www.gov.uk/dbs**
- Rhowch enw llawn y sawl sydd wedi gwirio dogfennau hunaniaeth yr ymgeisydd yn **w58**. Gall y gwirydd tystiolaeth nodi hyn, na fydd o reidrwydd y Cydlofnodydd.
- Wedi **cadarnhau hunaniaeth** yr ymgeisydd, dylai naill ai'r Cydlofnodydd neu'r gwirydd tystiolaeth roi **cadarnhaol** yn adran **w59**. Os ydych chi'n dewis Na, bydd y DBS yn ceisio cadarnhau hunaniaeth yr ymgeisydd yn defnyddio dulliau amgen.
- Os nad chi yw'r Cydlofnodydd **PEIDIWCH Â CHWBLHAU ADRAN Y**.


w prawf hunaniaeth

58 enw'r sawl a wiriodd y dystiolaeth: AAMINA JONAS

59 a ydych chi wedi sefydlu gwir hunaniaeth yr ymgeisydd, trwy archwilio ystod o ddogfennau fel y sefydlwyd yng nghanllaw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac wedi gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn adrannau a a b, trwy gwblhau gwiriad y blychau ticio? nac ydw [ ] ydw [X]

# Adran x – cais am wiriad DBS

Cwblhewch yr adran hon i ddynodi pa lefel o wiriad DBS sydd angen, pa weithlu mae'rymgeisydd yn gwneud cais i weithio ynddo a pha swydd fydd gan yr ymgeisydd. Cyfeiriwch at adran cyhoeddiadau'r wefan DBS www.gov.uk/dbs am restr lawn o'r categorïau y gellir gwneud cais am wiriad DBS ar eu cyfer.

- Peidiwch â chwblhau adran **x60**.
- Rhowch y gweithlu a swydd yr ymgeisir ar ei chyfer yn adran **x61** gyda chyfanswm o 60 o nodau.


Gwnewch hyn fel a ganlyn:
**Llinell 1**: rhowch y gweithlu perthnasol, naill ai:

- Gweithlu Plant
- Gweithlu Oedolion
- Gweithlu Plant ac Oedolion
- Gweithlu Arall

**Llinell 2**: rhowch y swydd yr ymgeisiwyd ar ei chyfer


Mae'n allweddol eich bod yn llenwi'r ddau faes hyn yn gywir am eu bod yn ofynnol er mwyn i'r heddlu ystyried perthnasedd, a byddant yn caniatáu i'r ymgeisydd ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru os bydd yn dewis gwneud hynny.

- Rhowch y **cyflogwr** ar gyfer y sefydliad y bydd yr ymgeisydd yn gweithio iddo yn adran **x62**.
- Dewiswch y **lefel o wiriad DBS** sy'n ofynnol yn **x63**. Os ydych chi wedi dewis **Safonol**, ewch i x67. Os ydych chi wedi dewis **Manwl**, rhaid i chi lenwi gweddill yr adran.
- Nodwch a oes gennych hawl i wybod a yw'r ymgeisydd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda **phlant** neu **oedolion** yn **x64** ac **x65**. Dewiswch **na**, os nad yw'r cwestiwn yn berthnasol. **Ni ddylech** adael y meysydd hyn yn wag os ydych chi wedi dewis Manwl.
- Os nad ydych chi wedi rhoi croes yn y blwch perthnasol a bod y swydd yn galw am wiriad rhwystro, ni fydd y gwiriad DBS a gwblheir yn dangos yr wybodaeth berthnasol.
- Nodwch a fydd yr ymgeisydd yn gweithio yn eu cyfeiriad cartref yn **x66**. Gallai hyn gynnwys gofalwyr plant neu ofalwyr maeth.
- Rhaid i chi nodi a yw'r gwiriad ar gyfer gwirfoddolwr yn **x68** trwy roi croes ar gyfer yr ateb **cadarnhaol** neu **negyddol**. Os nad ydych yn nodi eich bod angen gwiriad ar gyfer gwirfoddolwr, codir tâl arnoch am y cais.


X gwneud cais am wiriad DBS
60 ni ddefnyddiwyd: PEIDIWCH Â DEFNYDDIO
61 y swydd yr ymgeisir amdani: GWEITHLU PLANT / ATHRAWES YSGOL GYNRADD
62 enw'r sefydliad: CHILDCARE PRO
63 lefel gwiriad DBS: Rhowch groes mewn un blwch yn unig — safonol ☐ os oes croes, ewch i x67 — Manwl ☒ os oes croes, ewch i x64
64 a oes gennych hawl i wybod a yw'r ymgeisydd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda phlant? — nac oes ☐ oes ☒
65 a oes gennych hawl i wybod a yw'r ymgeisydd wedi ei wahardd rhag gweithio gydag oedolion? — nac oes ☒ oes ☐
66 a yw'r swydd yn golygu gweithio gyda phlant neu oedolion yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd? — nac ydy ☒ ydy ☐
67 y math o gais:
mae'r cais am ddeilydd newydd i'r swydd ☒
mae'r cais am ddeilydd sydd eisoes yn ei swydd ☐
mae'r cais am ddeilydd sydd eisoes yn ei swydd sy'n cael ei ailwirio ☐
68 a yw'r cais ar gyfer gwirfoddolwr di-dâl? — nac ydy ☒ ydy ☐
Trwy roi croes yn y blwch ydi, rydych yn cadarnhau bod y swydd yn bodloni diffiniad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o gais rhad ac am ddim gwirfoddolwr. Sylwer y gall y DBS gasglu'r ffi ymgeisio os yw'r blwch hwn wedi ei nodi ar gam, ac y gallai hyn arwain at ganslo eich cofrestriad DBS.

# Adran y – datganiad gan yr unigolyn cofrestredig

- Pan fydd yr holl adrannau wedi eu cwblhau, dylech lofnodi'r cais. Mae'r llofnod hwn yn cadarnhau'ch bod wedi sicrhau y darparwyd yr holl ddogfennaeth ofynnol a'i wirio, fod y cais yn bodloni'r meini prawf cymhwyster i ofyn am gwestiwn a eithriwyd neu ddiben a ragnodwyd a bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn gyflawn a gwir.
- Mae eich rhif Corff Cofrestredig wedi ei argraffu yn adran **y69**. Os nad dyma'ch rhif sefydliad, rhaid i chi gyflwyno'r cais ar ffurflen gyda'ch rhif wedi ei argraffu arno. **Peidiwch ag addasu'r maes hwn**.
- Rhowch eich rhif cydlofnodydd yn **y70**. Bydd chwe digid cyntaf eich rhif yr un peth â chwe digid cyntaf y rhif Corff Cofrestredig, os yw'r rhifau hyn yn wahanol i'r ffurflen a gyhoeddwyd i Gorff Cofrestredig gwahanol ac **ni ddylech gwblhau'r ffurflen gais**.
- **Peidiwch ag addasu chwe digid cyntaf y rhif hwn.**
- Nodwch a oes gennych gyfrif talu yn adran **y71**. Os ydych chi wedi dethol Na, rhaid i chi amgáu taliad trwy siec. **Peidiwch ag anfon manylion cerdyn debyd na chredyd nac arian parod.**
- Rhowch eich llofnod yn y blwch a ddarparwyd yn adran **y72**. Os yw'r ymgeisydd neu wirydd hunaniaeth wedi llofnodi trwy gamgymeriad, rhowch linell trwyddo a llofnodi yn y blwch.
- Rhowch y dyddiad pan lofnodoch y ffurflen gais yn adran **y73**.


y datganiad gan berson cofrestredig

69 rhif y corff cofrestredig 2 1 2 3 4 5 6 7 8 9 0

70 rhif cydlofnodydd 2 1 2 3 4 5 6 7 8 1 1

71 a oes gennych daliad ar gyfrif? nac oes ☐ oes X Amgaewch daliad os oes ei angen

72 datganiad gan berson cofrestredig

Rwy'n cadarnhau y cyflenwyd y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol a'u gwirio yn unol â Chanllaw'r DBS. Rwy'n datgan fod yr wybodaeth a ddarperais i gefnogi'r cais yn gyflawn ac yn wir a deallaf y gall gwneud datganiad anghywir, a hynny'n wybodus i mi, fod yn drosedd. Rwy'n tystio, ble gofynnwyd, bod angen cais am wiriad DBS i'r diben o ofyn cwestiwn sydd wedi ei eithrio dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 Gorchymyn (eithriad) 1975; neu am ddiben a ragnodwyd fel y'i diffiniwyd yn Neddf yr Heddlu 1997 Rheoliadau (Cofnodion Troseddol) 2002.

Llofnod y person cofrestredig
(llofnodwch o fewn y blwch a ddarperir)

Counter-signature

73 dyddiad y cydlofnodi 0 1 0 1 2 0 1 2

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Wedi i chi sicrhau eich bod wedi llenwi pob adran o'r ffurflen gais, rhaid i chi:

- Llenwch y **blychau gwirio** yn adran a i sicrhau fod y cais wedi ei gwblhau.
- Cofnodwch y **Cyfeirnod Ffurflen** ar flaen y ffurflen gais er mwyn i chi allu olrhain y cynnydd ar-lein yn **www.gov.uk/dbs**
- Mae'r gwasanaeth olrhain yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio. Gallwch olrhain mwy nag un cais ar unwaith.
- Dylid hefyd darparu'r **Cyfeirnod Ffurflen** i'r ymgeisydd er mwyn iddo allu ymuno â'r **Gwasanaeth Diweddaru** os yw eisiau cadw ei dystysgrif yn gyfredol.
- Dylid anfon y ffurflen gais, ac unrhyw ddalenni parhad a ddefnyddiwyd, at y DBS i'w prosesu cyn gynted â phosibl.